


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

11 Gorffennaf 2018

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 16 GORFFENNAF 2018** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. CYFLWYNIAD YNGHYLCH GOBLYGIADAU'R RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR) I AELODAU ETHOLEDIG**
Derbyn cyflwyniad gan Lisa Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol gyda Chyngor Sir Ddinbych, yn cynghori'r Cynghorwyr sut i gydymffurfio gyda gofynion GDPR.
- 3. DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 4. ADRODDIAD Y MAER**
- 5. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018 yn gywir.
- 7. MATERION YN CODI**
- 8. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018.
- 9. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

10. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Ystyried cais am gymorth ariannol gan:

Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun – cais am £1,500.00 tuag at gostau dwy gysgodfan i'r disgyblion.

11. DYFODOL RHUTHUN 2

Ystyried sylwadau ynghylch yr adroddiad drafft a'r camau nesaf.

12. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR PWERAU BRYD

Cytuno ar ddyddiad cyfarfod ym mis Awst i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu.

13. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2018.

14. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

100012	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at gynnal Sioe 2018		£500.00
100013	Cwmni Budd Cymunedol Llanfwrog	Torri glaswellt – Gorffennaf 2018		£352.26
100014	Viking	100 stamp ail ddosbarth a blwch ffeilio	*	£73.47
100015	Clwb y Dyffryn	Cinio Sul Dinesig dau gwrs		£1,262.25
100016	Canda Copying Ltd	Rhent u llungopiwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100017	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£16.69
100018	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£28.04
100019	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100020	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – cyfarfod cyhoeddus ynghylch Yr Hen Lys	*	£36.00
100021	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – cyfarfodydd Pwyllgor a chyfarfod Cyffredin mis Gorffennaf	*	£180.00
100022	Public Sector Deposit Fund	Trosglwyddo'r arian o Undeb Credyd Caledfryn		£44,996.00
100023	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod chwarterol y Gymdeithas yn y Neuadd Ddinesig, Cei Connah, 20.07.18		£32.00
100024	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch	Cymorth ariannol tuag at Ddrysau Agored Rhuthun – siec amnewid		£1,500.00
100025	Don Jackson-Wyatt	Ffotograffiaeth yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor		£100.00
D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£170.28

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £81.39)

15. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 24 Medi 2018, am 7.00pm.